# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Mynydd**

**Treherbert**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

6/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Thŷ Mynydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Ocean Community Services Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Medi 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Tŷ Mynydd yn wasanaeth sy'n cael ei arwain yn dda lle mae'r bobl yn cael lefel dda o ofal a chymorth. Mae dogfennau gofal y bobl yn glir ac yn gryno ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant y bobl ac yn hyrwyddo dewis ac annibyniaeth. Mae gweithwyr gofal wedi datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'r bobl ac yn eu trin ag urddas a pharch. Mae'r bobl yn elwa ar amgylchedd sy'n gyfforddus ac yn lân ac sy'n cefnogi eu llesiant.

Mae yna weithlu profiadol sydd wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cynorthwyo. Mae'r broses recriwtio yn ddiogel, gan sicrhau bod gweithwyr gofal o gymeriad addas ac yn ddigon medrus i gyflawni eu rolau. Mae gweithwyr gofal yn cael eu cynorthwyo'n dda gan y rheolwr ac yn cael cymorth ffurfiol yn rheolaidd. Mae mesurau llywodraethu a sicrhau ansawdd yn gadarn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i gynnal goruchwyliaeth o'r gwasanaeth a ddarperir ac i gasglu adborth i lywio gwelliannau.

## Llesiant

Mae'r bobl yn hapus i fyw mewn amgylchedd a gynhelir yn dda sy'n helpu i hyrwyddo eu llesiant. Mae'r cartref yn lân ac yn gyfforddus drwyddo draw. Gall y bobl wneud dewis o ran eu lle byw personol a chânt eu cynorthwyo i gyfrannu at gynnal a chadw'r cartref. Mae rhaglen barhaus o wirio, gwasanaethu ac atgyweirio i sicrhau bod yr amgylchedd a'i gyfleusterau yn ddiogel i bobl eu defnyddio.

Mae systemau ar waith i helpu amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n sail i arferion diogel. Caiff y rhain eu hadolygu'n aml a'u halinio â chanllawiau cenedlaethol ac arferion gorau cyfredol. Mae’r gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant diogelu ac yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer adrodd am bryderon. Mae risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu hasesu'n drylwyr gyda chynlluniau rheoli perthnasol ar waith. Mae gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae gan yr adeilad fesurau diogelwch da a dim ond pobl awdurdodedig all gael mynediad. Mae ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau y gellir diwallu anghenion y bobl.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl. Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo i gael mynediad i ystod o weithgareddau sy'n annog datblygiad personol, annibyniaeth a rhyngweithio cymdeithasol. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen a chaiff iechyd cyffredinol y bobl ei fonitro'n agos. Caiff cynlluniau personol ac asesiadau risg eu diweddaru’n rheolaidd, ac maent yn darparu gwybodaeth glir i weithwyr gofal am y ffordd orau o gynorthwyo'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Anogir y bobl i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae gweithwyr gofal wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'r bobl y maent yn eu cynorthwyo ac yn eu trin â chynhesrwydd a charedigrwydd. Rhoddodd y bobl adborth cadarnhaol i ni am y gweithwyr gofal a'r rheolwr. Dywedodd un unigolyn: *“Mae'r staff yn hyfryd. Maen nhw’n gefnogol ac yn gwneud popeth dwi'n gofyn iddynt ei wneud.”*

## Gofal a Chymorth

Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu nodi yn eu cynlluniau personol. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar ganlyniadau unigol y bobl ac yn cynnwys lefel dda o wybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn dweud wrthym fod asesiadau a chynlluniau yn benodol i amgylchiadau unigol y bobl. Mae asesiadau risg yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i'r gweithwyr gofal am wendidau'r bobl a'r ffordd orau o gynorthwyo'r bobl yn ddiogel. Mae cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol ar waith lle aseswyd bod ymddygiad y bobl yn heriol. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau personol ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â phobl a'r tîm amlddisgyblaethol ehangach. Mae cynlluniau gweithgareddau yn dangos bod y bobl yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau hamdden yn ogystal â thasgau domestig. Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom un unigolyn yn cael ei gynorthwyo i ymweld â'r siopau i brynu rhai dillad newydd.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref lle mae gofal a chymorth yn cael eu darparu gan dîm o weithwyr gofal gwybodus a chymwys sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl. Roedd yn amlwg bod y gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cynorthwyo yn dda ac yn gallu nodi newidiadau yng nghyflyrau’r bobl a gweithredu yn unol â hynny. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau cofnodion manwl yn ddyddiol i fonitro iechyd a llesiant y bobl. Mae gan y bobl fynediad at ystod o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gallant gael mynediad at wasanaethau arbenigol pan fo angen. Roedd y bobl yn canmol y gweithwyr gofal a lefel y gofal a'r cymorth y maent yn ei chael. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“Mae'r staff yn dda iawn o ran fy annog a fy helpu i gyrraedd fy llawn botensial.”*

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i'r bobl reoli eu hanghenion meddyginiaeth. Mae polisi meddyginiaeth ar waith sy'n alinio â chanllawiau arferion gorau. Gwnaethom nodi bod angen diweddaru'r polisi i adlewyrchu gofynion adrodd cyfredol ar gyfer camgymeriadau meddyginiaeth. Gwnaethom drafod hyn â'r unigolyn cyfrifol, a ddywedodd wrthym fod y polisi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae rhai o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn rhoi eu meddyginiaeth eu hunain, ac mae ganddynt gynlluniau rheoli ar waith i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn ddiogel. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol a chynhelir archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod unrhyw anghysondebau yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt.

Mae mesurau rheoli heintiau cadarn yn helpu i leihau'r risg o groes-halogi. Mae'r polisi rheoli heintiau yn gyfredol. Mae gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant perthnasol ac yn cwblhau gwaith glanhau o'r cartref a'i gyfleusterau fel mater o drefn. Mae gan weithwyr gofal fynediad at gyflenwad da o gyfarpar diogelu personol y maent yn ei ddefnyddio pan fo angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion. Gall prif ran y cartref ddarparu llety i bedwar o bobl. Hefyd, mae yna fflat hunangynhwysol sy'n darparu llety i un unigolyn. Gwnaethom gynnal arolygiad gweledol o'r gwasanaeth ac ni nodwyd unrhyw beryglon. Roedd y cartref yn ymddangos yn lân drwyddo draw. Mae'r ardaloedd cymunol wedi'u cyflwyno'n dda ac wedi'u haddurno'n dda, ac mae ganddynt ddodrefn cyfforddus. Mae gan ystafelloedd gwely'r bobl naws bersonol yn ôl eu dewis ac maent yn cynnwys cofroddion ac eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae cyfleusterau'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau'n lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel. Gwelsom fod y gegin wedi ennill sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae hyn yn golygu bod y safonau hylendid yn uchel iawn. Mae lle awyr agored diogel a da ar gael i'r bobl. Gwelsom fod seddau a byrddau i'r bobl eu defnyddio os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae gan bawb sy'n byw yn y gwasanaeth gynllun personol gadael mewn argyfwng sy'n nodi’r ffordd orau o gynorthwyo'r unigolyn i adael yr adeilad mewn argyfwng.

Mae rhaglen cynnal a chadw ac adnewyddu ar waith. Dywedodd y rheolwr wrthym fod unrhyw faterion yr adroddwyd amdanynt yn cael sylw yn brydlon. Gwelsom dystiolaeth fod crefftwyr cymwys fel trydanwyr, peirianwyr nwy a gweithwyr proffesiynol diogelwch tân yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i gynnal a chadw cyfleustodau, cyfarpar a nodweddion diogelwch tân. Mae gweithwyr gofal yn cynnal gwiriadau yn rheolaidd i sicrhau bod diogelwch amgylcheddol yn cael ei gynnal. Cwblheir archwiliadau iechyd a diogelwch yn rheolaidd hefyd i nodi unrhyw beryglon a chymryd camau gweithredu yn unol â hynny. Mae sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel a dim ond personél awdurdodedig all gael mynediad atynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu hyfforddi a'u cynorthwyo'n briodol yn eu rolau. Ar ddechrau eu cyflogaeth, mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau rhaglen sefydlu strwythuredig. Yn dilyn hyn, mae ganddynt fynediad i raglen barhaus o hyfforddiant a datblygiad i sicrhau eu bod yn ddigon medrus i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddi a chanfod bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i ofynion hyfforddi ar y cyfan. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw fod safon yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig yn dda. Dywedodd un gweithiwr gofal, *“Mae gennym ni lawer o hyfforddiant, e-ddysgu, hyfforddiant ymarferol, a llyfrau gwaith. Cefais sesiwn sefydlu pan ddechreuais, ac roedd hi'n ddefnyddiol iawn.”* Mae cofnodion sy'n ymwneud â goruchwyliaeth ac arfarniadau yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael y lefelau angenrheidiol o gefnogaeth ffurfiol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal fyfyrio ar eu perfformiad a thrafod materion sy'n ymwneud â gwaith gyda'u rheolwr. Darparodd gweithwyr gofal adborth cyson cadarnhaol, gan ddefnyddio geiriau fel *“gwych”*, *“rhagorol"* a *“cefnogol”* i ddisgrifio'r rheolwr.

Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd da yn sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu. Dywedodd y rheolwr wrthym fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd a’i fod yn hygyrch ac yn gefnogol iawn. Cadarnhawyd hyn gan ddogfennau a oedd yn adlewyrchu bod yr unigolyn cyfrifol wedi cwblhau ei holl ddyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis i gwrdd â'r bobl a'r staff ac i gynnal archwiliadau amrywiol. Cynhyrchir adroddiad ansawdd gofal bob chwe mis lle ystyrir cryfderau'r gwasanaeth a meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n hyrwyddo arferion diogel. Gwnaethom edrych ar nifer o bolisïau a nodi bod angen nifer o fân newidiadau, y gwnaethom eu trafod â'r unigolyn cyfrifol. Gwnaethom hefyd archwilio datganiad o ddiben y gwasanaeth a’r canllaw i ddefnyddwyr a dod i'r casgliad bod y ddwy ddogfen yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu proses recriwtio ddiogel. Mae hyn yn sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau cywir ac agwedd gywir ar gyfer gwaith gyda phobl sy’n agored i niwed. Mae'r cofnodion recriwtio a welsom yn cadarnhau bod y gwasanaeth yn cwblhau'r holl wiriadau rheoliadol sy’n ofynnol cyn cyflogi rhywun. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sicrhau hunaniaeth pobl, hanes cyflogaeth a gwiriadau geirdaon.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 10/11/2022